**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Mehefin 2001 i'w hateb ar 19 Mehefin 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A oes ganddo gynlluniau i gyhoeddi canlyniadau Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ12001)

**2.Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad yn egluro sut mae rhoi'r cynigion polisi sydd yn Rhoi Cymru'n Gyntaf ar waith yn cyfrannu tuag at wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ12007)

**3.Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda gweinidogion San Steffan am y mesurau i helpu pobl yng Nghymru sy'n agored i niwed. (OAQ11986)

**4.Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch lleihau nifer y llysoedd sirol yng Nghymru. (OAQ11999)

**5.Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y goblygiadau i Gymru pe bai'r DU yn ymuno ag arian sengl Ewrop. (OAQ11985)

**6.Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad ynghylch pa waith a wnaed dramor yn ddiweddar gan ei Gyd-weinidogion yn y Cabinet. (OAQ11990)

**7.Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Sut mae'n bwriadu sicrhau y bydd barn y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei hystyried yn ystod proses ymgynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar gydlyniant. (OAQ12009)

**8.Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad yn amlinellu pa gynigion yn Rhoi Cymru'n Gyntaf a gaiff eu rhoi ar waith yn ystod y chwe mis nesaf. (OAQ1194)

**9.Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa rôl y mae'n ei ragweld ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol

yn ystod proses ymgynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu. (OAQ1208)

**10.Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Ydych chi'n bwriadu newid cyfrifoldebau'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn y Cynulliad. (OAQ11988) [W]

**11.Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Yn ei rôl fel Cydlynydd Datblygu Polisi, sut mae'n asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran gwneud materion trawsbynciol yn rhan annatod o bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ11995)

**12.Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i hybu'r gefnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin. (OAQ12002)

**13.Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygu perthynas y Cynulliad ymhellach â Busnesau. (OAQ11987)

**14.John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Sut gall y Cynulliad gyfrannu tuag at bolisïau i frwydro yn erbyn tlodi yn y byd datblygol. (OAQ12010)

**15.Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i wneud ei Gabinet yn fwy atebol i'r cyhoedd. (OAQ11989)**TYNWYD YN OL**

**16.Brian Hancock (Islwyn);** A yw'n bwriadu mynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol yn y flwyddyn nesaf er mwyn hyrwyddo Cymru yn y byd ehangach. (OAQ11991)**TYNWYD YN OL**

**17.David Davies (Mynwy);** A wnaiff ddatganiad ar sut mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi effeithio ar Sir Fynwy. (OAQ12003)

**18.Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff adrodd ar sefyllfa ddiweddaraf y berthynas rhwng polisïau gwellcymru.com a'r rhaglen a amlinellir yn Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ11996) **TYNWYD YN OL**

**19.David Melding (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cymryd camau i sicrhau y cyflwynir yr achos dros gynrychiolaeth uniongyrchol o Gymru mewn unrhyw drafodaeth ar ffurf Ty'r Arglwyddi yn y dyfodol. (OAQ12006)

**20.Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes ganddo gynlluniau i adolygu'r targedau a gynhwysir yn Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ12000)**TYNWYD YN OL**

**21.Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff roi adroddiad ar hynt Cydbwyllgor y Gweinidogion. (OAQ11998)

**22.Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut y bydd yn mynd ati i lunio polisïau'r Cynulliad ar yr UE yng ngoleuni'r trafferthion y mae cyrff o'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'u cael wrth ymdrin â materion Ewropeaidd. (OAQ12012)

**23.Gareth Jones (Conwy);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd yn ddiweddar i sicrhau bod yr ymrwymiadau a welir yn Rhoi Cymru'n Gyntaf yn cael eu gweithredu. (OAQ12005)**TYNWYD YN OL**

**24.Geraint Davies (Rhondda);** A yw'n bwriadu mynychu unrhyw gynadleddau rhyngwladol yn y flwyddyn nesaf, i hybu Cymru. (OAQ12004)**TYNWYD YN OL**

**25.William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad yn amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda chynrychiolwyr Llywodraeth San Steffan ynghylch cynnwys polisïau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru yn Araith nesaf y Frenhines. (OAQ12011)

**26.Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A gyflwynir unrhyw fesurau newydd yn sgil canfyddiadau'r Adroddiad ar Berfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000. (OAQ11993) **TYNWYD YN OL**

**27.Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A fydd yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw gynadleddau tramor yn y flwyddyn nesaf. (OAQ11992)**TYNWYD YN OL**

**28.Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut mae'n monitro effeithiolrwydd y partneriaethau gyda busnesau a sefydlwyd yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. (OAQ11997)